OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2012 No. 1903

## Gorchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Sefydlu) 2012

### RHAN 3 —

### MATERION ARIANNOL

**Grantiau**

**12.**—(1) Caiff Gweinidogion Cymru roi grantiau i'r Corff.

(2) Gall grant o dan yr erthygl hon gael ei roi yn ddarostyngedig i amodau.

**Dyletswyddau ariannol cyffredinol**

**13.**—(1) Caiff Gweinidogion Cymru benderfynu dyletswyddau ariannol y Corff.

(2) Gellir gwneud penderfyniadau gwahanol ar gyfer swyddogaethau a gweithgareddau gwahanol y Corff.

(3) Rhaid i Weinidogion Cymru—

(a) ymgynghori â'r Corff cyn gwneud penderfyniad am ddyletswyddau ariannol y Corff, a

(b) rhoi hysbysiad i'r Corff am bob penderfyniad o'r fath y maent yn ei wneud.

(4) Caiff penderfyniad o'r fath—

(a) ymwneud â chyfnod sy'n dechrau cyn y dyddiad y'i gwneir, arno neu ar ei ôl;

(b) cynnwys darpariaethau atodol; ac

(c) cael ei amrywio gan benderfyniad dilynol.

(5) Caiff Gweinidogion Cymru roi cyfarwyddyd i'r Corff gan ei gwneud yn ofynnol iddo dalu iddynt swm sy'n gyfartal â'r cyfan o unrhyw swm neu ran ohono a bennir yn y cyfarwyddyd, neu unrhyw swm o ddisgrifiad a bennir felly a hwnnw'n swm sy'n cael neu sydd wedi cael ei dderbyn gan y Corff hwnnw.

(6) Lle yr ymddengys i Weinidogion Cymru fod gan y Corff warged, p'un ai ar gyfrif cyfalaf neu refeniw, cânt gyfarwyddo'r Corff i dalu iddynt swm nad yw'n fwy na'r gwarged hwnnw a bennir yn y cyfarwyddyd.

(7) Rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r Corff cyn rhoi cyfarwyddyd o dan baragraff (5) neu (6).

**Pwerau benthyca**

**14.**—(1) Caiff y Corff fenthyca yn unol â darpariaethau canlynol yr erthygl hon, ond nid fel arall.

(2) Caiff y Corff fenthyca symiau o'r fath mewn sterling ag y mae eu hangen arno i gyflawni ei rwymedigaethau a'i swyddogaethau.

(3) Caiff y Corff fenthyca—

(a) gan Weinidogion Cymru, neu

(b) gan bersonau ac eithrio Gweinidogion Cymru, ond dim ond gyda chydsyniad Gweinidogion Cymru.

(4) Caniateir i gydsyniad gael ei roi o dan baragraff (3)(b) yn ddarostyngedig i amodau.

**Gwarantau Gweinidogion Cymru o ran benthyca gan y Corff**

**15.**—(1) Caiff Gweinidogion Cymru warantu, yn y fath fodd ac ar yr amodau sy'n briodol yn eu barn hwy, yr ad-daliad o unrhyw brif swm y mae'r Corff yn ei fenthyca gan unrhyw berson, y taliad o log ar y swm hwnnw a chyflawni unrhyw rwymedigaeth ariannol arall sy'n gysylltiedig ag ef.

(2) Os telir unrhyw symiau er mwyn cyflawni gwarant o dan yr erthygl hon, rhaid i'r Corff dalu i Weinidogion Cymru, ar yr adegau ac yn y modd y byddant yn ei gyfarwyddo o bryd i'w gilydd,—

(a) symiau yn ôl eu cyfarwyddyd i ad-dalu neu tuag at ad-dalu'r symiau hynny a dalwyd, a

(b) taliadau llog, ar y gyfradd yn ôl eu cyfarwyddyd, ar yr hyn sy'n weddill ar hyn o bryd mewn cysylltiad â'r symiau hynny a dalwyd.